
**CYMORTH AR GYFER POBL HŶN YNG NGHYMRU
IECHYD, GOFAL CYMDEITHASOL A'R TRYDYDD
SECTOR**

Papur trafod

Medi 2017

wihsc



CYFLWYNIAD A CHYD-DESTUN

RHAGYMDRODD

Ym mis Ebrill 2015, darparodd Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru (SIGCC) adroddiad i Gynghrair y Cynghreiriau a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar wella arweinyddiaeth ranbarthol a'r perthnasoedd rhwng sefydliadau lleol a chenedlaethol o fewn iechyd a gofal cymdeithasol yn y trydydd sector yng Nghymru.¹ Mae llawer wedi digwydd ers hynny, ac yn sgil cyhoeddi adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru (SAC)² yn ddiweddar, bu ffocws unwaith eto ar natur y perthnasoedd rhwng y trydydd sector a chyrrff cyhoeddus, ac o fewn y sector, a'r cyfleoedd a gyflwynir gan hyn. Mae heriau o ran comisiynu a'r berthynas rhwng sefydliadau a'r sector cyhoeddus, ariannu'r sector yn gyffredinol, pwysau a gofynion y gweithlu, cyd-destun Brexit a ffactorau eraill yn parhau, gan efallai olygu bod hon yn adeg dda i adolygu'r sefyllfa.

Wrth gydnabod ei rôl mewn gallu darparu lle i helpu i ddatblygu'r gwaith hwn, mae SIGCC wedi arwain y prosiect canlynol mewn partneriaeth â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru a Chynghrair Henoed Cymru. Mae'r bartneriaeth hon rhwng sefydliad ymchwil academiaidd, y corff aelodaeth cenedlaethol ar gyfer y sector, a rhwydwaith o sefydliadau sy'n canolbwyntio ar anghenion a phroblemau pobl hŷn, wedi bod yn effeithiol iawn. Yn yr astudiaeth hon, rydym wedi cymryd fel 'achos' i'w ystyried anghenion iechyd a gofal cymdeithasol pobl hŷn, ac wedi gweithio gyda chydweithwyr ar draws y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn unol â hynny i fynd i'r afael â nifer o gwestiynau allweddol sy'n ein hwynebu heddiw.

CYD-DESTUN

Mae'r Comisiynydd yn darparu'r crynodeb canlynol am yr amgylchiadau ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru:

Mae bron i 800,000 o bobl dros 60 oed yn ein gwlad – dros chwarter o'n poblogaeth – a bydd hyn yn fwy nag 1 miliwn yn y 20 mlynedd nesaf. Mae gan bobl hŷn gyfoeth o wybodaeth a phrofiad, a thrwy eu gwirfoddoli, gofalu, ac i lawer, eu blynyddoedd parhaus o weithio, mae pobl hŷn yn garfan sy'n cyfrannu'n helaeth at economi Cymru, a'n cymunedau ledled Cymru. Yn y bôn, rhaid i gymdeithas newid y ffordd y mae'n meddwl am bobl hŷn a heneiddio, a'u cydnabod am fod yn gaffaeliad sylweddol, i'n cymunedau a'r economi ehangach, fel ei gilydd.

I lawer o bobl hŷn, mae Cymru yn lle da i fynd yn hŷn. Mae ansawdd eu bywyd yn dda ar y cyfan, ac maent yn derbyn y gwasanaethau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i aros yn ddiogel ac yn annibynnol. Fodd bynnag, er bod llawer o enghreifftiau o arfer da ar draws gwasanaethau cyhoeddus sy'n gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl hŷn, yn amlach na pheidio, rydym yn methu cael y pethau sylfaenol yn gywir. Mae gormod o bobl hŷn yn cael trafferth cael y wybodaeth, y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt yn amserol ac yn teimlo nad oes ganddynt ryw lawer o lais na rheolaeth. Mae gormod o bobl hŷn yn byw mewn tlodi, ac mae llawer o'r gwasanaethau cymunedol y maent yn dibynnu arnynt yn diflannu.

Anaml y mae pobl hŷn yn siarad am wasanaethau neu systemau – eu blaenoriaeth yw aros yn ddiogel, mor iach ac annibynnol ag y bo modd, a byw bywydau sydd â gwerth, ystyr a diben. Dyma sut mae pobl hŷn yn diffinio ansawdd bywyd – yn gyfystyr â'r cysyniad o les. Mae pobl hŷn yn glir iawn hefyd ynglŷn â'r ffaith fod arnynt eisiau llais cryf a rheolaeth ystyrion dros eu bywydau, yn enwedig o ran sut maent yn derbyn cymorth a gofal. Mae'r graddau y maent yn derbyn cymorth a gofal yn effeithio'n uniongyrchol ar ansawdd eu


¹ Llewellyn M, Longley M, Garthwaite T, Evans R and Hilgart J (2015) *Gwella arweinyddiaeth ranbarthol a'r berthynas rhwng mudiadau lleol a chenedlaethol o fewn y trydydd sector yng Nghymru* Cynghrair y Cynghreiriau a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, p 43 – ar gael ar gais gan y prif awdur: mark.llewellyn@southwales.ac.uk

² Archwilydd Cyffredinol Cymru (2017) *Y modd y mae awdurdodau lleol yn ariannu gwasanaethau'r trydydd sector* Swyddfa Archwilio Cymru – defnyddiwyd, 29.8.17 from <https://www.audit.wales/system/files/publications/Third-sector-funding-eng.pdf>

bywydau, ac mewn llawer o achosion, mae'n cynyddu effaith gwasanaethau ac yn lleihau cost y gwasanaethau hynny i'r pwrs cyhoeddus.³

Gan adeiladu ar hyn, mae'n bwysig nodi rôl dyngedfennol y trydydd sector ym mywydau bob dydd pobl hŷn. Ceir amrywiaeth eang o weithgarwch trydydd sector mewn cymunedau ledled Cymru – gan amrywio o weithredu gwirfoddol gan wirfoddolwyr – p'un a ydynt yn hysbys i gynghorau gwirfoddol sirol ai peidio – i sefydliadau trydydd sector wedi'u comisiynu yn ymgymryd â gwaith ar ran y sector cyhoeddus. Mae'n anodd mesur cyfrannau'r gweithgarwch yn y categorïau hyn, ond mae Ffigur 1 yn ceisio cynrychioli'r math hwn o deipoleg, gan gydnabod y byddai pobl hŷn yn fwy dibynnol ar wasanaethau cyhoeddus nag ydynt ar hyn o bryd, heb y cymorth a gynigir yn y categorïau hyn. Fe'i dilynir gan Ffigur 2 sy'n darparu'r data diweddaraf gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar y ffynonellau i ariannu'r trydydd sector yng Nghymru.⁴


Ffigur 1 · Gweithgarwch y Trydydd Sector mewn cymunedau



³ Dyfyniadau o *Fframwaith Gweithredu, 2013-17* Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2013)– defnyddiwyd, 20.9.17 o http://www.olderpeoplewales.com/Libraries/Uploads/Framework_for_Action.sflb.ashx

⁴ Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (2016) Adnodd Ystadegol y Trydydd Sector – defnyddiwyd, 29.8.17 o https://www.wcva.org.uk/media/3594846/wcva_almanac_2016_6_.pdf – data yn ymwneud â 2013/14

Ffigur 2 · Ariannu'r Trydydd Sector yng Nghymru, 2013/14




Y rheswm dros gynnwys y data hwn ar gyllid yw'r ffaith fod yr 15% (sydd gyfwerth â £250 miliwn yn 2013/14) sy'n dod i'r sector gan llywodraeth leol a byrddau iechyd ar gyfer gwasanaethau, wedi bod yn destun newid gwirioneddol er 2001, gan gynyddu 165% mewn ychydig dros 10 mlynedd. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi adrodd ar hyn, ac mae Tabl 1 ynghyd â Ffigur 3 yn rhoi syniad o raddfa a chyflymdra'r newid, gan gynnwys y gwahanol symiau a wariwyd ar grantiau a contractau yn ystod y cyfnod hwnnw.⁵ Mae'n amlwg fod gan y newid hwn oblygiadau enfawr i'r trydydd sector, yn enwedig y swm cynyddol o arian cyhoeddus sy'n cael ei wario ar gcontractau yn hytrach na thrwy grantiau.

Tabl 1 · Cyfanswm cyllid y Trydydd Sector yng Nghymru gan y llywodraeth leol a byrddau iechyd, 2001/02 i 2013/14

2001-02	2003-04	2009-10	2013-14	Newid mewn termau gwirioneddol
£68m	£126m	£156m	£249m	165.5%

⁵ Archwilydd Cyffredinol Cymru, op. cit.

Ffigur 3 · Y cyfanswm a wariwyd ar y Trydydd Sector yng Nghymru – wedi'i rannu yn wariant ar grantiau a gwariant ar gontractau, 2001/02 i 2013/14



CANFYDDIADAU

Roedd y prosiect yn cynnwys dau becyn o waith. Yn gyntaf, roedd cyhoeddi adroddiad y Papur Gwyntyllu⁶ ble cafodd SIGCC gyfres o gyfraniadau gan arweinwyr o fewn rhannau o'r trydydd sector sy'n canolbwyntio ar anghenion iechyd a gofal pobl hŷn. Roedd ail ran yr astudiaeth yn cynnwys dau gyfarfod o gwmpas bwrdd a ddaeth â chyfranwyr at ei gilydd i'r drafodaeth am y Papur Gwyntyllu a nifer o arweinwyr eraill o'r sector, gydag uwch gydweithwyr o Lywodraeth Cymru. Bu'r ddau gyfarfod hyn yn trafod y materion sy'n deillio o'r Papur Gwyntyllu a hwyluswyd y trafodaethau gan SIGCC.

Mae'r 20 pwynt canlynol yn crynhoi'r materion allweddol a ddaeth o'r broses hon, ac maent wedi'u strwythuro o amgylch tri phennawd, sef:

CYLLID

1. Rhaid i'r gyfundrefn ariannu gael ei hailwampio'n sylweddol ar gyfer y trydydd sector, a rhaid deall pwysau ariannol yn well. Mae cyfyngiadau ynghlwm wrth ddatblygu contractau ac mae goblygiadau cadw grantiau'n wastad wedi bod yn enfawr i'r sector. Fel rhan o hyn, mae'n bwysig cydnabod yr amrywiaeth eang o weithgareddau y mae sefydliadau'r trydydd sector yn ymgymryd â nhw, ac nad oes modd rhoi gwerth ar bob un o'r rhain yn hawdd (see Ffigur 1). Mae maint ac amrywiaeth y sector yn hanfodol o ran cynorthwyo pobl hŷn mewn llawer o ffyrdd, ac mae perygl i'r gweithgareddau hyn.
2. Mae masnacheiddio a phroffesiynoli'r trydydd sector wedi digwydd trwy dwf mewn perthnasoedd contract. Mae angen newid yr obsesiwn â gwerth am arian fel egwyddor i berthynas y trydydd sector â phartneriaid statudol os ydym am gael perthnasoedd mwy aeddfed ac effeithiol sy'n parchu egwyddorion y trydydd sector yn well ac yn osgoi canlyniadau na fwriadwyd.
3. Mae'r trydydd sector mewn perygl o golli ei hunaniaeth wreiddiol o ran gwirfoddoli ac o ran y rolau eraill y mae'n aml yn eu cyflawni, fel ymgysylltu, dylanwadu, llais y defnyddiwr. Mae 'proffesiynoli' neu 'fasnacheiddio' perthnasoedd yn gyffredinol rhwng y sector cyhoeddus a'r trydydd sector yn wirionedd na ellir ei anwybyddu, ac ni ellir anwybyddu'r canlyniadau na fwriedir ar y sefydliadau hynny sy'n dibynnu ar wirfoddolwyr chwaith. Mae'n bwysig i'r sector cyhoeddus barchu'r ffaith na chodir tâl am wirfoddoli, ac ymgysylltu cymdeithasol a chymunedol, ond mae costau ynghlwm wrtho.
4. Defnyddir y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i symud pobl oddi wrth wasanaethau statudol, hyd yn oed ar adegau pan fydd ganddynt hawl i'w cael. Pan fydd hyn yn digwydd, y trydydd sector yn aml yw'r unig ddewis ar gyfer pobl mewn angen, a bydd yn rhaid iddo'i adfer ei hun i'w sefyllfa arferol heb gyllid cysylltiedig. Mae datgysylltiad rhwng y polisi a'r ddeddfwriaeth a realiti arfer – nid yw dyheadau'r Ddeddf wedi cael eu bodloni gan wasanaethau a ddarperir mewn cymunedau eto, ac mae angen cydnabyddiaeth well y dylai adnoddau ddilyn cyfrifoldebau.
5. Mae angen i arfer comisiynu newid, ac mae angen i'r newid hwn gael ei yrru a'i ddangos gan yr hyn nad yw'n gweithio ar hyn o bryd – fel contractau mwy ac amseroedd galw byrrach mewn gofal cartref; amser a chomisiynu tasgau; ymagweddau gorchymyn a rheolaeth – bydd angen datblygu set wahanol o berthnasoedd rhwng y cyhoedd a'r trydydd sector ar gyfer hyn, ble caiff pŵer ei rannu'n fwy cyfartal.

⁶ Ar gael o http://wihs.southwales.ac.uk/media/files/documents/2017-05-26/THINKPIECE_-_Health_Social_Care_and_the_Third_Sector_.pdf

6. At ei gilydd, mae angen i'r sector statudol ddangos mwy o barch at y trydydd sector er mwyn gallu creu perthnasoedd strategol cynaliadwy heb fod y sector cyhoeddus yn chwilio am y dewis 'rhad' yn unig. Mae hefyd yn bwysig fod unrhyw ddryswch ynglŷn â'r trydydd sector yn cael ei ddirnad gan y sector cyhoeddus fel y gangen gyflwyno a'r wladwriaeth yn cael ei unioni. A all y trydydd sector gadw ei annibyniaeth, ac nid cael ei ariannu gan y wladwriaeth yn unig?

PERTHNASOEDD PRESENNOL

7. Rhaid cael mwy o fewnbwn gan gyflwynwyr gwasanaeth i nodi'r hyn sydd ei angen ar bobl. Ni wneir defnydd cystal â phosibl o'r 'wybodaeth' yn y trydydd sector ar hyn o bryd, a gellid gwneud llawer mwy i wella rhannu gwybodaeth i helpu comisiynwyr yn eu gwaith.
8. Gellir dysgu llawer gan awdurdodau lleol wrth roi dull yn seiliedig ar ddeilliannau ar waith ar gyfer comisiynu a chyflwyno gwasanaeth sy'n seiliedig ar gyd-gynhyrchu. Cydnabyddir nad yw hyn yn hawdd ei wneud, a'i bod yn hawdd trafod ond peidio â gweithredu o ran cysyniadau fel cyd-gynhyrchu, heb gydnabod yn briodol y potensial ar gyfer newid trawsffurfiannol y gall cyd-gynhyrchu ei gynnig i ddinasyddion ledled y wlad. Wedi dweud hynny, ceir agenda fawr yma.
9. Mae cymhlethdod mawr mewn perthnasoedd sy'n bodoli eisoes, ac mae llawer o haenau o safbwyntiau. Mae cydweithio a phartneriaeth wedi bod yn destun trafod ers sawl blwyddyn, ond a ydym yn glir ynglŷn â beth mae'r termau hyn yn ei olygu? Mae yna elfennau sy'n atal cydweithio a phartneriaethau, a byddai datblygu gwerthoedd a gweledigaeth ar y cyd yn ffordd dda iawn o sefydlu tir cyffredin. Mae twf 'masnacheiddio' yn her gynyddol yn hyn o beth.
10. Ceir enghreifftiau o ymgysylltu cadarnhaol yn ddiweddar, ond mae amrywiaeth o hyd ledled Cymru yn ansawdd y perthnasoedd rhwng y cyhoedd a'r trydydd sector. Mae'n bwysig ystyried 'y berthynas â'r sector cyhoeddus' a beth allai hyn ei olygu yn ymarferol. Beth yw lle'r sector elusennol mewn perthynas o'r fath â'r sector cyhoeddus, a sut ydym ni'n sicrhau nad yw hyn yn llithro i fod yn berthynas 'comisiynydd/darparwr'? Yn y cyd-destun hwn, mae'r agwedd â'r GIG a gofal cymdeithasol yn bwysig. Y nod yw sicrhau bod cael perthnasoedd strategol aeddfed â'r trydydd sector yn dod yn rhywbeth arferol.
11. Yng nghyd-destun y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol newydd a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, nid yw'r syniadau o 'gynrychiolaeth' ac 'aelodaeth' wedi cael eu harchwilio'n llawn eto. Mae'r rhain yn parhau i esblygu, yn yr un modd â'r diwylliannau a'r ymddygiadau yn gysylltiedig â'r byrddau. Ceir ymdeimlad fod angen i'r trydydd sector wella a bod yn fwy craff o ran rhwydweithio, ond mae her hefyd fod angen egluro'r rolau o amgylch byrddau fel bod pawb ar y ddwy ochr yn gwybod beth sy'n ddisgwyliedig. I raddau helaeth, mae hyn yn ymwneud ag ystyried gallu aelodau'r trydydd sector ar y byrddau hynny, ac yn bwysig, pa gymorth sydd ar gael iddynt weithredu fel gwir 'gynrychiolwyr'? Sut byddai modd mynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg o ran dysgu a datblygu ar gyfer aelodau'r trydydd sector? Sut gellid eu hwyluso i ymgysylltu ac ymgynghori â chydweithwyr cenedlaethol a rhanbarthol y trydydd sector? A ellid cyhoeddi proffiliau rôl ar gyfer holl aelodau'r bwrdd er mwyn darparu eglurder o'r fath? Sut caiff y gofynion a'r cyfrifoldebau eu gosod ar y Byrddau a sut mae hyn yn ymwneud â phrosesau gwneud penderfyniadau'r cyrff sofran? A yw cael llais dilys, nid cynrychioliadol, yn ffordd ymlaen?
12. Mae angen cydnabod hefyd nad ar lefel bwrdd yn unig y mae'r perthnasoedd hyn yn bwysig - mae nifer o is-bwyllgorau, a gweithio isranbarthol i'w hystyried, ochr yn ochr â'r ffaith fod 'sofraniaeth' yn parhau gyda'r byrddau iechyd a'r awdurdodau lleol, ac nid ar y lefel ranbarthol. Bydd angen datrys hyn, gan fod angen ymgysylltu ar sawl lefel. Mae angen gofyn cwestiynau ynghylch p'un a oes gan arweinwyr yn y trydydd sector y gallu i gyfrannu at bob un o'r byrddau/pwyllgorau/grwpiau hyn heb adnoddau.
13. Mae cyd-destun Gofal Iechyd Darbodus yn bwysig yn hyn o beth. Mae'r Papur Gwyntyllu yn cyfrannu mewn modd cadarnhaol at y drafodaeth am Ofal Iechyd Darbodus – mae angen creu dadleuon y galon a'r

meddwl, ac mae'r Papur Gwyntyllu yn darparu sail dystiolaeth gredadwy ar ble mae Gofal Iechyd Darbodus arni, ac mae hefyd yn ddefnyddiol o ran chwalo chwedlau ynglŷn â'r hyn y gall y trydydd sector ei wneud, a'r hyn y mae'n ei wneud.

14. Mae angen ailystyried fframweithiau cyfreithiol a chaffael. Pwy sy'n pennu 'meddylfryd OJEU' – h.y. bod rhaid caffael popeth yn ffurfiol mewn modd deddfol a llym, neu ai'r dull "mae cyfreithwyr yn dweud na" – yw'r unig ffordd y gallwn wneud pethau? A oes enghreifftiau y gall y trydydd eu darparu i helpu herio'r gred mai'r llwybr OJEU yw'r unig lwybr? Gellir herio'r meddylfryd hwn, a dylid ei herio. Er mwyn gwneud hyn yn effeithiol, a oes angen i'r trydydd sector gael ei gyngor cyfreithiol ei hun ar y materion hyn? Beth yw'r sgiliau sydd eu hangen i ddatblygu gwasanaethau mewn ffordd wahanol os ydym ni wir am symud y tu hwnt i 'feddylfryd OJEU'? A oes gennym y sgiliau, ac os na, sut ydym ni'n eu cael?
15. Mae llawer o'r hyn sydd ei angen ynglŷn â datblygu perthnasoedd gwirioneddol, treulio amser i estyn allan i'n gilydd, meithrin ymddiriedaeth yn fwriadol trwy feithrin perthynas, a pheidio â mynd y tu hwnt i'r hyn y dylem ei wneud fel sefydliadau.

Y DYFODOL

16. Mae'r trydydd sector yn ymateb i'r her ond mae'n ei chael yn anodd dal i fyny â'r tirlun sy'n newid. Mae angen cymorth a chefnogaeth arno i ymgysylltu'n effeithiol â'r trefniadau newydd hyn, yn enwedig ynglŷn â'r agenda ledled rhanbarthau.
17. Mae angen i berthynas bresennol Llywodraeth Cymru â'r sector esblygu er mwyn galluogi'r Cynghreiriau i amlygu eu harbenigedd o ran pobl hŷn. Mae hyn wedi bod yn gadarnhaol iawn yn ddiweddar, ac mae parodrwydd ar ran y sector i geisio cynnal perthnasoedd o'r fath, ac adeiladu arnynt.
18. Mae angen llais parhaus gan y trydydd sector wrth i benderfyniadau pwysig gael eu gwneud ar ddiwedd yr Adolygiad Seneddol o amgylch modelau gofal newydd, a sicrhau bod 'gwasanaethau'n addas ar gyfer y dyfodol'. Mae hyn yn hanfodol, a gallai'r pedair thema o dan Symud Cymru Ymlaen gynnig ffordd ddefnyddiol o fframio ymgysylltu wrth fynd ymlaen: ffyniannus a chadarn, uchelgeisiol a dysgu, unedig a chysylltiedig, ac iach a gweithredol.
19. Mae angen i bartneriaid statudol fod yn fwy uchelgeisiol yn y gwaith a wnânt o ran cynllunio, ac ymgysylltu statudol. Credid y gallai'r Adolygiad Seneddol gynnig cyfle da i greu math newydd o berthnasoedd. Er enghraifft, beth fydd rôl y trydydd sector yn y Fforwm Rhanddeiliaid a gynigiwyd cyn adroddiad terfynol yr Adolygiad? Yr hyn sy'n bwysig, ffordd o wneud hyn yw canolbwyntio'r iaith ar bobl, yn enwedig o ystyried bod y trydydd sector yn arbennig o dda yn ymgysylltu â phobl na chânt eu clywed yn aml. Yn yr un modd, gallai'r cam nesaf ar ôl yr Asesiadau o'r Boblogaeth – y Cynlluniau Ardal Lleol – fod yn gyfle diddorol a defnyddiol i feithrin perthnasoedd.
20. Mae angen ymagwedd newydd at ymgysylltu sy'n cynnwys cymunedau'n llawn, ochr yn ochr â gwelliant systematig o ran cynllunio gwasanaethau.

TRAFODAETH

Felly, ble mae hyn yn ein gadael ni, a beth allem ni ei gasglu am y dyfodol?

Y NORMAL NEWYDD

Mewn llawer o ffyrdd, gellid disgrifio'r amgylchiadau sy'n wynebu'r trydydd sector yng Nghymru fel cyrraedd cam normal newydd. Disgwylir y bydd cyllid grant ar gyfer y sector yn parhau i ddisgyn, ond mae gan y sector rôl gynyddol mewn gwasanaethau wedi'u contractio yn yr agenda ddeddfwriaethol enfawr ac uchelgeisiol, ond nad yw wedi cael ei rhoi ar waith yn llawn eto. Mae llymder wedi bod yn anodd i'r trydydd sector yng Nghymru, ac mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi nodi nad yw effaith toriadau mewn darpariaeth gwasanaethau yn aml yn cael ei chofnodi nac yn hysbys.⁷ Mae gwirioneddau newydd hefyd yn y berthynas rhwng y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, sy'n effeithio ar y ffordd y mae pobl yn gweithio, ac yn ei newid. Y brif nodwedd ymhlith y rhain yw'r symud o gefnogi'r trydydd sector yn ariannol i gyflwyno ei gynlluniau a'i flaenoriaethau eu hun (trwy grantiau) i sefyllfa ble mae'r trydydd sector yn cyflwyno yn unol â chynlluniau a blaenoriaethau awdurdodau lleol a byrddau iechyd (trwy gontractau). Mae'r newid hwn wedi golygu bod y berthynas o fewn y trydydd sector mewn rhannau o Gymru wedi dod yn llai cydweithredol ac yn fwy cystadleuol, sy'n anghyson â chyfeiriad polisi yng Nghymru. Mae 'cynrychiolaeth' ac 'aelodaeth' yn parhau i fod yn dermau dadleuol, ac fe geir canfyddiad cynyddol o fwch rhwng rethreg a realiti'r agenda ddeddfwriaethol. Ac yn olaf, mae 'proffesiynoli' a 'masnacheiddio' y sector yn gynyddol yn herio'i hunaniaeth.

Y NEWID SYDD EI ANGEN

Mae llawer wedi cael ei wneud, ond mae llawer ar ôl i'w wneud. Mae cydweithwyr yn y trydydd sector yn cydnabod na ellir ariannu gwasanaethau dyblyg mwyach, ond mae wedi'i uno gan gymhelliant i wneud y gorau dros bobl hŷn, ac er eu mwyn. Mae llawer o newid yn digwydd ar hyn o bryd, ac mae her y rhaglen ddeddfwriaethol newydd yn cynnig nifer o gyfleoedd cadarnhaol i ddiwygio ffyrdd o weithio a newid meddylfryd. Mae angen gwneud nifer o newidiadau o ran y disgrifiad uchod, i'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector fel ei gilydd. Yn benodol, mae angen newid y ffordd y mae sefydliadau yn meddwl am y mathau o gwestiynau y gallent eu defnyddio i ymgysylltu â phobl hŷn – mae Tabl 2 yn rhoi disgrifiad o'r newid sydd ei angen.

Tabl 2 · Cwestiynau i'w gofyn i bobl hŷn – o'r hen feddylfryd i'r newydd

O...	I...
Beth sydd gennym sydd ei angen arnoch?	Beth sy'n bwysig i chi?
Beth allwn ni ei gyflawni i chi?	Pa ddeilliannau allwn ni eu sicrhau?
Am beth rydym ni'n gyfrifol?	Beth allwn ni ei wneud gyda'n gilydd i'ch cynorthwyo?

WRTH EDRYCH YN ÔL YN 2020...SUT BYDDWN YN MYFYRIO AR Y CYFNOD HWN YMHEN TAIR BLYNEDD?

⁷ Archwilydd Cyffredinol Cymru, op. cit.

Beth yw ein barn am y negeseuon yn y papur hwn? Mae'n bwysig meddwl am y tair blynedd nesaf fel cyfle cadarnhaol i dderbyn y pwyntiau a wnaed uchod, ac ymgorffori arferion, diwylliannau, ymddygiadau a pherthnasoedd sy'n mynd i'r afael â'r pwyntiau. Gan feddwl am 2020, efallai ei bod yn ddefnyddiol meddwl ynglŷn â sut beth fydd perthnasoedd strategol a chynaliadwy 'da' rhwng y sector cyhoeddus a'r trydydd sector, ac mae'r canlynol yn darparu rhestr wirio y gellir asesu cynnydd yn ei herbyn:

- Beth hoffem ni ei gael erbyn 2020 nad oes gennym ni nawr?
- Beth mae angen i ni ei wneud amdano nawr er mwyn i ni gyrraedd yno?
- A ydym yn fodlon â'r esblygiad hyd yn hyn?
- Pa mor aeddfed a chryf yw ein perthnasoedd?
- Beth yw'r ffordd orau y gallwn egluro diffiniadau dros gydweithio a chyd-gynhyrchu?
- Beth yw'r ffordd orau o ddatblygu gweledigaeth a gwerthoedd ar y cyd? Beth ydynt, a beth ddylent fod?
- Sut ydym ni'n gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod byrddau gwneud penderfyniadau yn gwneud yr hyn y dylent fod yn ei wneud, ac yn gwneud y gorau o'u heffaith?
- A ydym ni'n gwybod beth sydd gan y naill a'r llall ohonom i'w gynnig?
- A ydym ni'n gwybod beth sydd ei angen/eisiau arnom oddi wrth ein gilydd?

Mae angen i ni wrando ar bobl hŷn ac ar ein gilydd, ac ystyried ymddwyn yn wahanol i gefnogi gwahanol ffyrdd o weithredu i'w cyflawni yn y gwahanol amgylcheddau polisi ac arfer, gan ddefnyddio ymagwedd yn seiliedig ar hawliau. Cydweithio – ar draws, o fewn, mewn cydweithrediad ffurfiol neu bartneriaethau anffurfiol – yw'r ffordd orau o wella arfer, gyda sefydliadau'n defnyddio tystiolaeth i ddeall a chyfleu'r effaith gadarnhaol a gânt.

Y rheswm dros wneud hyn – fod pawb yn ddieithriad yn cydnabod y dylid gwneud mwy i wella deilliannau ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru. A sut bydd pobl hŷn yn gwybod bod newid wedi'i wneud? Pan fyddant o ddydd i ddydd yn teimlo gwelliant amlwg yn eu hamgylchiadau ac ansawdd eu bywyd, gyda mwy o gyfleoedd i gael dweud eu dweud, a gweithredu yn unol â hynny. Ni all yr un sefydliad gyflawni hyn ar ei ben ei hun. Yr hyn sy'n hanfodol yma yw'r cysyniad o ddwyochredd – bydd newid dim ond yn digwydd os yw'r trydydd sector a'r sector cyhoeddus yn ymrwymo i wella'r sefyllfa bresennol, ac yn symud tuag at ddatblygu perthnasoedd strategol mwy cynaliadwy.

TÎM Y PROSIECT



Dr Mark Llewellyn

Dirprwy Gyfarwyddwr,
Sefydliad Iechyd a Gofal
Cymdeithasol Cymru
(SIGCC), Prifysgol De
Cymru



Ceri Jackson

Cadeirydd, Cynghair Henoed
Cymru a Chyfarwyddwr, RNIB
Cymru



Ruth Marks

Prif Weithredwr, Cyngor
Gweithredu Gwirfoddol
Cymru



Jeff Hawkins

Is-Gadeirydd, Cynghair
Henoed Cymru a Phrif
Weithredwr, Age Connects
Caerdydd a'r Fro



Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru

Prifysgol De Cymru, Campws Glyntaf, Pontypridd, CF37 1DL
wihsc.southwales.ac.uk · wihsc@southwales.ac.uk · 01443 483070